# Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 4 Rhagfyr 2023 |
| **Aelodau a oedd yn bresennol:** | Rhys A. Jones, Aelod o Fwrdd CNC (Cadeirydd)<br>Rhianne Jones, CNC<br>Nichola Salter, CNC<br>Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA)<br>Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)<br>Ieuan S. Davies, CNC<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water<br>Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin (CFF)<br>Kate Snow, United Utilities |
| **Hefyd yn bresennol:** | Iwan Williams, CNC (Eitem 3) |
| **Ymddiheuriadau:** | Katy Simmons, CNC<br>Marc Williams, CNC<br>Jon Goldsworthy, CNC<br>Sarah Hetherington, CNC<br>David Ball, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)<br>Einir Williams, Cyswllt Ffermio<br>Matt Walters, Llywodraeth Cymru<br>Delyth Lewis-Jones, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)<br>Russ Thomas, Hybu Cig Cymru<br>Chris Mills, Afonydd Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1: Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Is-grŵp y Fforwm) bawb i'r cyfarfod Microsoft Teams a nododd yr ymddiheuriadau.

2. Caiff y cyfarfod ei recordio er mwyn cael cofnod o'r cofnodion. Bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu cymeradwyo.

3. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau mewn perthynas ag eitemau'r agenda.

- DS: Mae holl aelodau'r grŵp wedi llenwi ffurflenni datgan buddiannau eisoes, ond dylent gyflwyno datganiad os oes ganddynt fuddiannau mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2: Adolygu'r Cofnodion a'r Camau Gweithredu

4. Ar ôl adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd Rhys y byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC er mwyn i'r cyhoedd allu eu gweld. Felly, mae hi'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

5. Aeth aelodau'r grŵp ati i adolygu cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2023. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ac ni dderbyniwyd unrhyw newidiadau mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Tachwedd.

6. Rhannodd Bronwen y cofnod o'r camau gweithredu a oedd heb eu cymryd a chyflwynwyd diweddariadau llafar pan fo modd.

7. Dywedodd Ieuan S. Davies, CNC, y cafwyd rhai heriau wrth gadarnhau adroddiad y Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA a bod yr heriau hynny wedi arwain at oedi cyn dosbarthu'r adroddiad. Dywedodd Rhys ei fod yn gobeithio cael cyfarfod dilynol gyda Delyth Lewis-Jones, AHDB i drafod y mater hwn.

8. Dosbarthodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, ddolen yn ymwneud â Her SBRI Llywodraeth Cymru, sef ''Lleihau llygredd sy'n deillio o allyriadau amonia amaethyddol yn y sector gwartheg' | Canolfan Ragoriaeth SBRI (simplydo.co.uk).]

## Eitem 3: Materion sy'n Codi

9. Anogwyd y grŵp i drafod materion a oedd yn deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, ynghyd â dogfennau perthnasol neu bynciau diweddar.

10. Soniodd Rhys am gais i gael cyflwyniad yn ymwneud â monitro dip defaid. Nid oedd modd i gydweithwyr o CNC fynychu'r cyfarfod hwn, ond cyflwynwyd diweddariad ysgrifenedig i'r grŵp yn ymwneud â Diazinon. Dywedodd Bronwen y ceir ymrwymiad i roi cyflwyniad yn un o gyfarfodydd y dyfodol. Yn ôl Creighton, mae'r pwnc hwn o ddiddordeb mawr a thrafodwyd rhywfaint o'i bryderon. Gofynnodd Creighton a fyddai modd rhannu'r nodyn ynglŷn â Diazinon gydag aelodau Fforwm Pysgodfeydd Cymru. Dywedodd Bronwen y byddai'n holi ei chydweithwyr. Awgrymodd Rhys y dylid cael cyflwyniad ar y cyd yn ymwneud â'r pwnc hwn ar gyfer aelodau Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru. Os bydd modd cael cyflwyniad o'r fath, gofynnodd Rachel a ellid cynnwys gwybodaeth am ddosbarthiad gofodol y tramgwyddau honedig (e.e. map).

***PG01 Rhagfyr: Dylai Bronwen Martin, CNC, wirio a oes modd rhannu'r Nodyn Gwybodaeth Diazinon gydag aelodau Fforwm Pysgodfeydd Cymru.***

***PG02 Rhagfyr: Dylai Bronwen Martin, CNC ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal cyflwyniad ar y cyd yn ymwneud â monitro dip defaid ar gyfer aelodau Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru.***

11. Gofynnodd Rhys a oedd unrhyw un yn dymuno rhannu trafodaethau perthnasol a oedd yn deillio o’r Ffair Aeaf. Dywedodd Dennis ei fod wedi ceisio siarsio Taliadau Gwledig Cymru y dylai cyfundrefn archwilio’r sefydliad ar gyfer tramgwyddau’n ymwneud â’r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol gyd-fynd â chyfundrefnau CNC. Fodd bynnag, mae rheolau trawsgydymffurfio yn gyfraith a byddai’n rhaid i unrhyw newidiadau yn y dull fynd trwy’r Senedd. Yn ôl Taliadau Gwledig Cymru, pan ddaw’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd i rym, bydd y sefydliad yn ystyried rhoi dull mwy cydgysylltiedig ar waith. Mynegodd Dennis siomedigaeth ynglŷn â’r ffaith nad oedd wedi llwyddo i wneud rhagor o gynnydd ynglŷn â’r mater hwn. Dywedodd Gareth Parry, FUW fod yr FUW hefyd wedi crybwyll mater tebyg wrth y Prif Weinidog yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Yn ôl Gareth, mae’r FUW yn croesawu’r ffaith y bydd CNC yn rhoi ‘dull meddalach’ ar waith wrth orfodi cydymffurfio â’r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, o gofio faint o amser mae ffermwyr ei angen i addasu a dod i delerau â’r hyn sy’n ddisgwyliedig ohonynt, ynghyd â’r llu o rwystrau sydd y tu hwnt i’w rheolaeth o ran seilwaith a chynllunio etc. Dywedodd Gareth fod yr FUW wedi crybwyll y gallai hyn greu rhwystrau i ffermwyr o ran cael mynediad at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy pe na bai modd iddynt gydymffurfio â’r Rheoliadau am resymau eraill.

    Awgrymodd Gareth mai’r pwnc llosg yn y Ffair Aeaf oedd cyllid ar gyfer materion amaethyddol. Ni cheir sicrwydd ynglŷn â chyllidebau unrhyw ddiwydiant yn y dyfodol. Dyma bryder mawr. Mae’r cyllid a geir gan y llywodraeth yn sail i lawer o’r gwaith a wneir gan ffermwyr (e.e. gwaith amgylcheddol, gwella ansawdd dŵr etc.), ond hefyd mae angen i ffermydd fod yn fusnesau economaidd hyfyw. Roedd yr FUW wedi cynnal cyfarfod â Clare Pillman, CNC, lle crybwyllwyd pwyntiau’n ymwneud â chostau cynyddol trwyddedau ar gyfer gwasgaru dip defaid a ddefnyddiwyd. Ers hynny, mae’r FUW wedi cael gohebiaeth gan Clare ynglŷn â manylion y costau hynny. Fodd bynnag, dywedodd yr FUW wrth Clare nad yw’r wybodaeth honno’n cynnig digon o fanylion ar gyfer deall sut cyfrifwyd y ffigurau. Dywedodd Gareth y bydd yr FUW yn parhau i gynnal deialog gyda CNC ynglŷn â’r pwnc hwn yn y gobaith y ceir rhagor o eglurder.

12. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru fod Ymgynghoriad CNC ynghylch Talwyr Taliadau ar waith ar hyn o bryd (CNC: ‘Ymgynghoriad ar ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio ar gyfer 2024/2025’ (dyddiad cau: 8 Ionawr 2024)) Mae NFU Cymru yn bwriadu cyflwyno pwyntiau’n ymwneud â’r adolygiad strategol o daliadau a’r cynnydd a welwyd yn y ffioedd y llynedd. Bydd NFU Cymru yn gofyn beth yn union mae CNC yn ei wneud i ysgogi arbedion effeithlonrwydd yn ei system drwyddedu. Mae pawb arall yn gorfod sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac mae NFU Cymru o’r farn nad yw hyn yn wir am CNC. Dywedodd Rachel fod angen mwy o dryloywder ynglŷn â’r modd y caiff y taliadau eu pennu a pha un a oes yna gyfle i’w hadolygu’n annibynnol. Ar hyn o bryd, ceir diffyg ffydd ynglŷn â’r taliadau o fewn y diwydiant ac mae angen eu harchwilio ymhellach.

    Yn ôl Rachel, mae Cynllun Cynefin Cymru a diwedd Glastir yn enghraifft o’r camau uchelgeisiol y cred y Llywodraeth a’i Rheoleiddwyr y bydd modd i ffermwyr eu cymryd er mwyn gwneud mwy i gyflawni er budd yr amgylchedd. Rydym wedi cyrraedd sefyllfa bryderus iawn – mae hyder ffermwyr wedi cael ei dolcio ac nid yw’r uchelgais i gyflawni er budd yr amgylchedd yn cael ei pharu â chyllideb briodol.

13. Gofynnodd Rhys a oedd unrhyw un wedi mynychu Trydedd Uwchgynhadledd Llygredd Afon y Prif Weinidog a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd – dyma gyfle i gyflwyno crynodeb o’r trafodaethau (Datganiad Ysgrifenedig: Trydedd Uwchgynhadledd Llygredd Afon (8 Rhagfyr 2023) | LLYW.CYMRU).

Roedd Gareth wedi mynychu'r Uwchgynhadledd a soniodd am yr uchafbwyntiau perthnasol. Cafwyd cyflwyniad rhagorol gan Richard Roderick, Grŵp Dŵr y Bannau, ynglŷn â'r gwaith a wneir gan y grŵp yn y dalgylch. Pwysleisiodd Richard y siomedigaeth ynglŷn â'r newid yn y trefniadau cyllido rhwng Glastir a Chynllun Cynefin Cymru. Awgrymodd Gareth mai'r brif neges a ddeilliodd o'r cyflwyniad oedd y gwaith rhagorol a wneir gan y grŵp (e.e. gorsafoedd tywydd, gweithio gyda'r amgylchedd a mynd i'r afael â chamau i wella ansawdd y dŵr yn y dalgylch). Fodd bynnag, mae'n siomedig nad yw'r Rheoliadau ar draws Cymru yn cydnabod yr elfennau hyblyg hyn.

Mae'r FUW yn rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Masnachu Maethynnau a grëwyd yn dilyn yr Uwchgynhadledd gyntaf yn 2022. Cyflwynodd y grŵp hwnnw ei adroddiad yn yr Uwchgynhadledd a gynhaliwyd yn ddiweddar. Mae'n adroddiad gwych – papur ymchwil yn ymwneud â masnachu maethynnau – ac mae'n tynnu sylw at yr holl feysydd mae angen ymchwilio iddynt. Dywedodd Gareth fod yr adroddiad yn cynrychioli trafodaethau'r grŵp yn gywir; ac er nad yw'n datrys pob problem, mae'n tynnu sylw at yr hyn mae angen ei wneud ar gyfer cyflwyno system masnachu maethynnau. Hefyd, mae'r adroddiad yn crybwyll bod angen monitro a dosrannu ffynonellau mewn modd tryloyw, gwrthrychol a diduedd, er mwyn i'r holl randdeiliaid allu teimlo'n hyderus ynglŷn â'r canlyniadau. Mae CNC a Dŵr Cymru yn gweithio ar wella dulliau modelu dosrannu ffynonellau. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr holl randdeiliaid hyder yn y data hwnnw a'u pryder yw y bydd y data'n cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau polisi yn y dyfodol, er y gellid dadlau nad yw'n gwbl gywir ar ei ffurf bresennol.

14. Adleisiodd Rachel sylwadau Gareth ynglŷn ag adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Masnachu Maethynnau. Dywedodd Rachel fod yr adroddiad yn un ardderchog ac anogodd bawb i'w ddarllen. Mae'r adroddiad yn archwilio rôl masnachu maethynnau, ond ceir rhwystrau sylweddol y byddai'n rhaid eu goresgyn. Ym marn Rachel, y neges a ddeilliodd o'r Uwchgynhadledd oedd bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ers yr Uwchgynhadledd Ffosffadau gyntaf, a bod y camau gweithredu yn esgor ar rywfaint o hyblygrwydd er mwyn gallu datblygu tai cymdeithasol. Soniodd Rachel hefyd am gyflwyniad Richard Roderick, lle tynnwyd sylw at enghraifft o gamau cadarnhaol iawn a gymerir gan ffermwyr ledled Cymru. Ar y cyfan, bu'r Uwchgynhadledd yn ddigwyddiad cadarnhaol a chanolbwyntiwyd ar gyflawni'r camau yn y Cynllun Gweithredu. Awgrymwyd bod cynlluniau ar y gweill ar gyfer ychwaneg o Uwchgynadleddau yn 2024.

15. Gofynnodd Bronwen a fyddai modd dosbarthu copi o adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Masnachu Maethynnau ymhlith y grŵp. Nid oedd Rachel na Gareth yn siŵr beth oedd statws yr adroddiad, ond dywedasant y byddent yn holi. Soniodd Rachel fod yr adroddiad ei hun wedi'i ysgrifennu gan fyfyrwraig PhD wedi'i secondio o Brifysgol Caergrawnt, sef Isabel Ollard, a'i bod wedi gwneud gwaith ardderchog.

***PG03 Rhagfyr: Dylai Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, wirio statws adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Masnachu Maethynnau a gweld a oes modd ei ddosbarthu ymhlith aelodau Is-grŵp y Fforwm.***

Trafododd Rhys y posibilrwydd o gael cyflwyniad yn un o gyfarfodydd y dyfodol, er mwyn cynnwys crynodeb o'r adroddiad. Cytunodd Rachel a Gareth y gallent hwyluso cyflwyniad yn y dyfodol.

***PG04 Rhagfyr: Dylai Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, a Gareth Parry, FUW, roi cyflwyniad yn sôn am adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Masnachu Maethynnau yn un o gyfarfodydd y dyfodol.***

16. Ni chrybwyllodd y grŵp unrhyw fater arall.

## Eitem 4: Diweddariad CNC: Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

17. Ymunodd Iwan Williams a Nichola Salter, CNC, â'r cyfarfod i roi diweddariad yn ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Cytunwyd ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer archwilio gweithgareddau amaethyddol risg uwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol ar gyfer CNC gogyfer cynnal archwiliadau wedi'u cynllunio (h.y. nid ymateb i ddigwyddiadau) i asesu a gydymffurfir â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol ac i gymryd camau yn unol â Cyfoeth Naturiol Cymru / Polisi gorfodi a sancsiynau.

18. Mae staff CNC wedi mynychu Ffeiriau Gaeaf (2022 a 2023) er mwyn rhoi cyngor i ffermwyr a rhanddeiliaid, maent wedi cymryd rhan yng ngweminarau a digwyddiadau Cyswllt Ffermio, maent wedi cyflwyno hyfforddiant i randdeiliaid, mae cynllun cyfathrebu timau Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn cael ei ddatblygu, ac maent wedi arwain at gyhoeddi haen goleddf (ar gyfer mapiau risg) ar Map Data Cymru.

19. Rhoddodd Nichola ddiweddariad yn ymwneud â'r ymgyrch recriwtio i gyflogi staff i gynnal archwiliadau cydymffurfio a gorfodi a chynnig cymorth technegol yn ymwneud â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Mae'r staff a recriwtiwyd yn eu swyddi erbyn hyn ac maent yn dilyn rhaglen hyfforddi gynhwysfawr a gyflwynir gan ymgynghorwyr allanol a staff mewnol profiadol. Bydd rhaglen archwilio CNC yn targedu gweithgareddau risg uwch a wneir ar dir amaethyddol, fel y cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru. Mae gweithgareddau risg uwch yn cynnwys y ffermydd hynny sy'n cynhyrchu, yn mewnforio, yn allforio, yn storio neu'n defnyddio llawer o dail organig (yn ôl diffiniad y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol). Bydd CNC yn rhoi rhybudd ysgrifenedig rhesymol a bydd yn cadarnhau'r elfennau y bydd y Swyddogion yn dymuno'u harchwilio.

20. Caiff y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol eu cynnwys yn y safonau Trawsgydymffurfio fel Gofyniad Rheoli Statudol 1: Llygredd Dŵr. Rhaid i bob ffermwr a rheolwr tir yng Nghymru sy'n hawlio Cynllun y Taliad Sylfaenol a/neu gynlluniau tir Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru gadw at ofynion Trawsgydymffurfio. Byddai unrhyw fethiant i fodloni'r safonau Trawsgydymffurfio yn arwain at leihau, adennill neu wrthod taliadau gan Taliadau Gwledig Cymru, fel y nodir yn Trawsgydymffurfio: safonau dilysadwy 2023 | LLYW.CYMRU a Trawsgydymffurfio – Matrics Cosbi Taliadau 2016.pdf (llyw.cymru). O dan delerau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Llywodraeth Cymru, rhaid i CNC roi gwybod i Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW) am achosion o dorri safonau Trawsgydymffurfio.

21. Rhoddodd Nichola ac Iwan grynodeb o'r broses orfodi. Fel rheoleiddiwr wrth orfodi unrhyw reoliadau, mae'n ofynnol inni ddilyn Cod y Rheoleiddwyr. Mae'r cod yn nodi'r hyn sy'n ddisgwyliedig o reoleiddwyr wrth iddynt fynd i'r afael â'u dyletswyddau.

22. Crëwyd cronfa ddata ar gyfer cofnodi ac adrodd, ac mae hi ar waith erbyn hyn. Bydd yn cael ei defnyddio i adrodd am ganlyniadau archwiliadau, fel y cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru. Hyd yn hyn, mae'r tîm wedi cynnal oddeutu 60 o archwiliadau mewn perthynas â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a'r bwriad yw cynnal 40

yn ychwaneg cyn diwedd 2023. Awgrymodd Nichola y gallai roi adroddiadau o dro i dro i'r grŵp hwn.

23. Dywedodd Rachel ei bod eisoes wedi awgrymu bod angen casglu data cyd-destunol sylfaenol ychwanegol (e.e. a yw'r fferm wedi'i heintio â TB etc). Byddai'r wybodaeth ychwanegol hon yn ychwanegu cyd-destun at y sefyllfa. Tynnwyd sylw yn y gorffennol at y ffaith y gallai ffermwyr sy'n torri rheolau trawsgydymffurfio fod â rheswm sydd y tu hwnt i'w rheolaeth, ac mai'r rheswm hwnnw sy'n peri eu bod yn peidio â chydymffurfio. Dywedodd Nichola ein bod yn casglu data cyd-destunol, yn cynnwys a yw ffermydd o dan gyfyngiadau TB neu unrhyw gyfyngiadau eraill, a oes gan ffermydd denantiaid etc.

24. Gofynnodd Rachel a oes modd gweld y llythyr y bydd CNC yn ei anfon at ffermwyr lle rhoddir rhybudd rhesymol iddynt a lle bydd CNC yn cadarnhau pa elfennau y bydd y Swyddogion yn dymuno eu harchwilio. Cytunodd Nichola ac Iwan y byddent yn holi a ellir rhannu copi o'r llythyr safonol.

***PG05 Rhagfyr: Dylai Nichola Salter, CNC, ymchwilio i'r posibilrwydd o rannu copi o'r llythyr safonol a anfonir at ffermwyr cyn ymweld â'u ffermydd at ddibenion y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.***

25. Holodd Rachel am sgiliau ac arbenigedd tîm y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Disgrifiodd Nichola ac Iwan arbenigedd a chefndir yr unigolion (e.e. mae rhai yn meddu ar gymwysterau'r Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau (FACTS), mae rhai yn dod o Arolygiaeth Wledig Cymru, mae rhai yn archwilwyr iechyd anifeiliaid etc.). Ceir trawstoriad da o bobl yn y Tîm. Mae CNC a'r Rheoliadau yn newydd i rai o'r unigolion hyn, ond maent yn dysgu ac yn datblygu'n gyflym iawn. Pan fydd CNC yn delio â thramgwyddau trawsgydymffurfio, dywedodd Nichola y bydd gennym ddau lofnodwr technegol bob amser er mwyn sicrhau y ceir gwiriad technegol ychwanegol.

26. Gofynnodd Gareth a oes modd rhannu manylion cyswllt Tîm y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Dywedodd Iwan y byddai aelodau'r tîm yn croesawu gohebiaeth ac y byddent yn awyddus i'w manylion cyswllt gael eu rhannu.

***PG06 Rhagfyr: Dylai Iwan Williams, CNC, rannu gwybodaeth gyswllt timau'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.***

27. Gofynnodd Gareth a fyddai modd cael arweiniad sylfaenol neu bwyntiau gam wrth gam ynglŷn â'r modd y gall ffermwyr ddefnyddio Map Data Cymru. Dywedodd Nichola y byddai'n fodlon llunio arweiniad gam wrth gam, ond dywedodd nad yw'n defnyddio'r system ei hun gan fod CNC yn defnyddio system fapio fewnol. Mae Nichola yn gweithio gydag Arolygiaeth Wledig Cymru i sicrhau bod y system mor syml â phosibl ar gyfer ffermwyr.

28. Cyfeiriodd Gareth at y ffaith y bydd CNC yn cynnal archwiliadau ar ffermydd risg uwch a gofynnodd a yw'r ffermydd hyn yn flaenoriaeth neu'n brif ffocws. Dywedodd Iwan mai categorïau'r ffermydd fydd y ffocws, yn ogystal â'r ffermydd hynny yr ymwelwyd â nhw ar gyfer y Prosiect Llaeth (sef rhai â phroblemau). Ar y cychwyn, mae gennym darged o dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth i gynnal oddeutu 800 o ymweliadau ac oddeutu 600 o ailymweliadau.

29. Gofynnodd Creighton a yw'r holl swyddi wedi'u llenwi erbyn hyn. Dywedodd Iwan ein bod wedi llwyddo i lenwi'r mwyafrif o'r swyddi cyn yr her recriwtio. Mae tair neu bedair o swyddi ar ôl i'w llenwi, ond mae gennym arian o hyd a'r gobaith yw y gallwn oresgyn y broblem hon yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Mae hyn wedi effeithio rhywfaint ar gyflawni gwaith, ond nid yw'r effaith wedi bod yn fawr. Mae'r ffigurau'n adlewyrchu'r swyddi gwirioneddol a'r nifer o staff sydd yn y swyddi ar hyn o bryd.

30. O ran blaenoriaethau, gofynnodd Creighton a fydd CNC yn ystyried y ffermydd hynny a erlynwyd yn y gorffennol neu'r rhai a gafodd eu cysylltu â risgiau penodol naill ai yn y Prosiect Llaeth neu yn sgil camau gorfodi blaenorol uwchlaw'r meysydd risg a bennir. Esboniodd Nichola y fethodoleg ar gyfer asesu risg holl ffermydd Cymru.

31. Soniodd Creighton am sylwadau a wnaed yn gynharach ynglŷn â'r ffaith bod CNC wedi cytuno i ddefnyddio 'dull meddalach' mewn perthynas â gorfodi'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, a gofynnodd am sylwadau. Cyflwynodd Iwan grynodeb o'r papur a aeth trwy Grŵp Llywodraethu Gorfodi mewnol CNC, sy'n cynnig eglurder i'r staff ynglŷn â'r dull. Yn ôl Iwan, nid dewis meddal mohono. Byddwn yn archwilio ffermydd, yn tynnu sylw at feysydd nad ydynt yn cydymffurfio ac yn rhoi amserlen i'r ffermwyr ar gyfer sicrhau y bydd y meysydd hynny'n cydymffurfio (bydd hyn yn amrywio o fferm i fferm). Os na fydd y ffermwyr yn bodloni'r disgwyliadau ac os na fyddant yn cytuno ac yn cydymffurfio, yna bydd cam nesaf y broses orfodi'n cael ei roi ar waith. Nododd Iwan eithriad – os bydd fferm yn achosi llygredd neu os bydd mewn perygl mawr o achosi llygredd (afon/dŵr daear), nid cyngor ac arweiniad a roddir; yn hytrach, byddwn yn symud yn syth at ail neu drydedd haen ein dull rheoleiddio. Atgoffwyd y grŵp gan Iwan am y camau a ddaw i rym yn ystod 2024 mewn perthynas â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol , yn cynnwys cyfnodau pan na ddylid gwasgaru a gofynion o ran storio.

    Cyflwynodd Creighton grynodeb o'r dull archwilio. Dywedodd fod y dull archwilio yr un fath ar gyfer pob fferm o safbwynt unrhyw gamau gorfodi, ond bod y sefyllfa hefyd yn ddibynnol ar amgylchiadau ffermydd unigol. Ni fydd penderfyniad polisi'n cael ei wneud i roi dull meddalach ar waith. Os oes yna risg uchel o ran llygredd gwirioneddol, byddwch yn ystyried yr amgylchiadau cyn penderfynu. Hefyd, byddwch yn ystyried hanes cydymffurfio'r fferm wrth roi rhybudd mewn amgylchiadau o'r fath. Cytunodd Iwan â'r crynodeb hwn.

32. Gofynnodd Dennis a fydd dull gorfodi'r rheoliadau yn ystyried cydnabyddiaeth a enillwyd os ydych â gwarant fferm (e.e. os oes gennych Gynllun Rheoli a map risg eisoes). Dywedodd Nichola y byddai unrhyw gamau gorfodi'n cael eu cymryd yn erbyn peidio â chydymffurfio â'r Rheoliadau. Os oes gennych fap risg fel rhan o'ch gwarant, er enghraifft, ac os nad yw'r map hwnnw'n cynnwys yr holl bethau sy'n ofynnol ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, mae'n debyg y byddem yn cynnig cyngor ac arweiniad ynglŷn â'r elfen honno ac yn dweud bod angen ychwanegu pethau. Byddwn yn derbyn cofnodion mewn unrhyw fformat – nid oes yn rhaid iddynt gael eu cyflwyno yn y fformat a nodir yn yr arweiniad. Ond rhaid iddynt gynnwys popeth sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau. Felly, bydd modd ichi gael map risg ar gyfer eich cynllun gwarant fferm, ond efallai y bydd angen ichi ychwanegu haenau goleddf, lleoliad tomenni dros dro ar gaeau, pridd bas a thywodlyd etc. Yn ôl pob tebyg, byddai'r enghraifft hon yn cael ei hystyried yn dramgwydd rhannol pe baem yn sgorio tramgwydd trawsgydymffurfio, oherwydd fe fyddai gennych rywfaint o'r cofnodion; ond ni fyddai'n cael ei ystyried yn dramgwydd llawn, sef rhywbeth a fyddai'n cyfateb i fod heb unrhyw gofnodion o gwbl.

33. Dywedodd Dennis fod y Rheoliadau bob amser yn cyfeirio at dail organig, ond ei bod yn bwysig iawn gwahaniaethu rhwng tail organig y gellir ei bentyrru, e.e. tail buarth, a thail na ellir ei bentyrru, megis slyri. Esboniodd Nichola fod yna ofynion ar gyfer storio slyri, a ddaw i rym mewn perthynas â'r rheoliadau hyn ar 1 Awst 2024. Ond mae'n ofynnol yn awr (o dan yr hen reoliadau silwair a slyri) i storio slyri a chael 4 mis o storfa. Nid yw hyn yn rhan o drawsgydymffurfio, ond nyni yw'r corff gorfodi o hyd a byddwn yn gwirio a oes gennych 4 mis o storfa a'ch bod yn paratoi ar gyfer cael 5 mis o storfa erbyn ichi gyrraedd 1 Awst 2024. Yn achos tail solet y gellir ei bentyrru, daeth y gofyniad hwnnw i rym mewn perthynas â'r rheoliadau hyn ym mis Ionawr 2024. Mae hyn yn rhan o drawsgydymffurfio – gallwch ei roi mewn storfa a adeiladwyd ac ar sylfaen anhydraidd, ond rhaid ichi ddal unrhyw slyri a gynhyrchir; neu gallwch ei bentyrru ar ffurf tomenni dros dro mewn caeau, cyn belled â'u bod yn bodloni gofynion y Rheoliadau. Felly, ceir dwy ffordd wahanol iawn i'w gilydd, ond mae'r gofynion yn y Rheoliadau yn gydberthynol.

34. Yn ôl Dennis, roedd y Ddogfen Mesurau Amgen, a gyflwynwyd gan y grŵp hwn i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022, yn cynnwys atodiad a oedd yn sôn am faterion yn ymwneud â thenantiaeth, ond dywedodd na soniodd y Gweinidog o gwbl am y materion hyn yn ei ymateb. Dywedodd Dennis ei fod wedi crybwyll hyn, ond na chafodd ymateb. Mae'r atodiad hwnnw'n esbonio'r holl anawsterau a allai ddod i ran tenantiaid wrth geisio cydymffurfio. Dywedodd Nichola fod CNC wastad yn ystyried hyn a'i fod yn ceisio gweithio gyda ffermwyr a landlordiaid i fodloni'r Rheoliadau. Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru y cydnabyddir bod yr atodiad wedi'i gyflwyno a bod angen ei ystyried pan fyddwn yn edrych ar gynigion y mesurau amgen wrth inni symud ymlaen at broses yr adolygiad 4 blynedd.

35. Dywedodd Rachel ei bod yn gwybod am ffermwr a fethodd â chydymffurfio o ran storio oherwydd mater yn ymwneud â thenantiaeth. Roedd y landlord wedi dweud wrth y ffermwr y byddai'n buddsoddi yn y seilwaith, ond byddai'n rhaid i'r ffermwr ildio'i denantiaeth Deddf Daliadau Amaethyddol a chael Tenantiaeth Busnes Fferm yn ei lle. Mae'n bosibl y gall hyn wanhau sefyllfa tenantiaid gyda'u landlordiaid. Yn achos tenantiaid a chanddynt denantiaeth o dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol, dywedodd Dennis fod Adran 5 yn ymdrin ag ymrwymiad landlordiaid i ddiweddaru eu cyfarpar sefydlog (e.e. storfeydd slyri). Os oes gennych Denantiaeth Busnes Fferm, nid yw Adran 5 yn berthnasol, ac mae rhai landlordiaid wedi llwyddo i berswadio'u tenantiaid i newid eu tenantiaethau o denantiaeth Deddf Daliadau Amaethyddol i Denantiaeth Busnes Fferm, gan osgoi felly y cyfrifoldeb dros storfeydd slyri. Mater technegol yw hyn, ac mae landlordiaid ac asiantau diegwyddor yn gwneud hyn heb i'r tenant wybod y goblygiadau.

36. Holodd Rachel ynglŷn â diweddaru 'Pan ddaw'r archwilydd'. Dywedodd Nichola fod fersiwn newydd o 'Pan ddaw'r archwilydd' i'w chael. Roedd fersiwn bapur ar gael ar stondin Llywodraeth Cymru yn y Ffair Aeaf. Yn ôl Nichola, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ddogfen hon drachefn cyn bo hir.

37. Holodd Rachel pa mor hir mae'r archwiliadau'n para fel arfer gyda phob ffermwr. Yn ôl Iwan, bu'r archwiliadau a gynhaliwyd hyd yn hyn yn rhan o'r hyfforddiant ac efallai eu bod wedi para rywfaint yn hwy nag arfer. Yn ôl pob tebyg, mae'r archwiliadau'n para rhyw ddwy awr. Ond mae hyd a graddfa'r archwiliadau hyn yn edrych ar holl seilwaith y fferm, lleoliadau tomenni tail oddi ar y safle etc. Bydd gennym well syniad o hyd yr archwiliadau wrth inni fynd yn ein blaen. Dywedodd Nichola mai Swyddogion sy'n cynnal yr archwiliadau ar y safleoedd a'u bod yn cerdded o amgylch y fferm i edrych ar

strwythurau; ond os bydd modd inni gael gafael ar yr wybodaeth/data digidol angenrheidiol ar gyfer asesu'r broses cadw cofnodion, ac os bydd modd inni fynd â'r wybodaeth/data gyda ni oddi ar y safle, bydd hynny'n lleihau faint o amser a dreulir gyda'r ffermwr. Pe bai ffermwr yn gyndyn o drosglwyddo'i waith papur i ddwylo'r Swyddogion, holodd Rachel a oes yna opsiwn i wneud y gwaith hwnnw ar y fferm. Oes, yn ôl Nichola; ond byddai hynny'n cymryd mwy o amser. Dywedodd Iwan fod yna sawl opsiwn ar gyfer hyn (e.e. gwaith papur ffisegol, copïau electronig etc.).

38. Aeth Nichola yn ei blaen gyda'r cyflwyniad, gan grynhoi'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch (1 Ionawr 2024 – 31 Rhagfyr 2024). Dim ond rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Mawrth 2024 y derbynnir hysbysiadau. Yn achos ffermwyr a fydd yn hysbysu CNC ynglŷn â'u bwriad i ddefnyddio Dull Rheoli Maethynnau Uwch, ystyrir y byddant yn cynnal gweithgareddau amaethyddol risg uwch a byddant yn cael eu hychwanegu at ffermydd â blaenoriaeth ar gyfer archwiliad. Yn ystod archwiliadau cydymffurfio, cynhelir gwaith asesu i weld a yw ffermydd yn bodloni gofynion y Dull Rheoli Maethynnau Uwch a gofynion y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

39. Dywedodd Rachel ei bod yn deall pam y pennir dyddiad agor a dyddiad cau; ond pe bai ffermydd, nad ydynt angen mynd y tu hwnt i'r terfyn 170 fel arfer, yn cael eu taro gan TB buchol, a phe na bai modd iddynt symud eu stoc, yna byddai'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch o bosibl yn eu galluogi i gydymffurfio ac yn eu galluogi i ddelio â'r achos hwnnw o TB. Pwysleisiodd Rachel y senario hon pan fyddai'n ddefnyddiol derbyn y dull ar ôl 31 Mawrth, oherwydd byddai'r ffermwyr hynny mewn sefyllfa anodd iawn heb fod unrhyw fai arnynt hwy eu hunain. Diolchodd Nichola i Rachel, ond dywedodd fod hyn wedi'i ysgrifennu yn y Rheoliadau – yr unig beth a wna CNC yw gorfodi'r Rheoliadau yn unol â'r hyn a bennir ynddynt.

40. Dywedodd Gareth fod pwynt Rachel yn enghraifft dda a bod angen ystyried y pwynt hwn y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf (e.e. yn yr adolygiad 4 blynedd). Dywedodd Gareth ei fod yn deall bod CNC yn gweithio o fewn y Rheoliadau, ond y gallai achos o TB ddigwydd ymhen tair blynedd ac y gallai hynny greu anawsterau posibl i rai ffermwyr o ran aros islaw'r terfyn 170 cilogram. Efallai fod angen ystyried ateb yn y tymor hwy, ar wahân i'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch.

41. Gofynnodd Gareth beth yn union mae angen i ffermwyr ei gyflwyno fel rhan o'r broses hysbysu. Dywedodd Andrew fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar arweiniad ar hyn o bryd. Y nod yw cyhoeddi'r arweiniad hwn cyn gynted ag y bo modd fel y gall ffermwyr ddarllen trwyddo a gweld beth yw'r goblygiadau o ran eu daliadau.

42. Gofynnodd Creighton a fyddai modd dosbarthu sleidiau'r cyflwyniad. Cytunodd Nichola y byddai modd eu dosbarthu. Gofynnodd Creighton am eglurhad ynglŷn ag un pwynt ar y sleid terfynol, yn ymwneud â'r gweithgareddau risg uwch. Dywedodd Nichola y bydd unrhyw rai sy'n rhoi gwybod inni eu bod yn bwriadu defnyddio'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch yn cael eu rhoi yn y categori gweithgareddau amaethyddol risg uwch.

***PG07 Rhagfyr: Dylai Nichola Salter, CNC, rannu copi o'r cyflwyniad ar y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.***

43. Gofynnodd Creighton a yw'r rheoliadau ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Ydynt, yn ôl Andrew – maent ar gael ar legislation.gov ac ar wefan y Senedd.

44. Gofynnodd Rhys a fyddai modd i'r grŵp hwn gael diweddariadau yn y dyfodol (e.e. ffigurau penodol yn ymwneud â nifer yr ymweliadau, diffyg cydymffurfio etc.). Cytunodd

Nichola, ac awgrymodd y gallai gyflwyno diweddariadau chwarterol, gan ddechrau ym mis Ebrill 2024.

***PG08 Rhagfyr: Dylai Bronwen Martin ychwanegu diweddariad ar y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol at yr adran Rhagolwg ar gyfer Ebrill 2024.***

## Eitem 5: Rhagolwg

45. Dyma gyfle i'r grŵp drafod y Rhagolwg ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir yn 2024. Gwahoddwyd y grŵp i awgrymu eitemau/pynciau y gallai'r grŵp eu harchwilio yn ystod y flwyddyn nesaf. Hefyd, gall yr aelodau rannu pethau perthnasol neu themâu y bydd eu sefydliadau'n gweithio arnynt y flwyddyn nesaf.

46. Dywedodd Rhys fod rhai pethau eisoes yn yr arfaeth, megis y cyflwyniad ar fonitro dip defaid, cyflwyniad gan Rachel a Gareth yn sôn am Fasnachu Maethynnau, gwaith parhaus yn ymwneud ag amonia a diweddariadau ynglŷn â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

47. Soniodd Rhys am Brosiect Arddangos Dalgylch Afon Teifi, sy'n cynnwys amrywiaeth o bartneriaid o'r sectorau rheoli tir a rheoli dŵr. Nod y prosiect yw datblygu dull ar lefel y dalgylch ar gyfer ymdrin â materion ansawdd dŵr, yn ogystal â mynd i'r afael â materion yn ymwneud â bioamrywiaeth a rheoli llifogydd. Yn ddi-os, mae'r prosiect hwn yn rhywbeth y dylem gadw golwg arno. Gobeithio hefyd y gallwn gyfrannu ato. Yn ôl Rhys, un o fanteision y grŵp hwn yw'r ffaith bod gennym amrywiaeth o randdeiliaid; ac fel Cadeirydd, ei ddymuniad yw gweld hyn fel rhan bwysig o'r pethau a wnawn dros y flwyddyn nesaf. Mae'n bosibl y bydd modd cyflwyno'r prosiect peilot hwn yn ehangach mewn dalgylchoedd eraill yng Nghymru – hynny yw, dalgylchoedd sy'n wynebu heriau tebyg o ran ansawdd dŵr, colledion bioamrywiaeth etc.

48. Awgrymodd Rachel y byddai'n synhwyrol cynnwys diweddariadau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag adolygu'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Yn unol â dull 'dim byd annisgwyl', byddai'n fuddiol pe bai modd inni gael diweddariad ynglŷn â phroses yr adolygiad 4 blynedd o leiaf dair neu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn nesaf. Os bydd angen ymgynghori â'r cyhoedd, yn amlwg bydd angen inni ymgorffori hynny yn ein cynlluniau gwaith. Atgoffwyd y grŵp gan Rachel bod yna lawer o bethau ar y gweill mewn perthynas â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Papur Gwyn ar Lywodraethu Amgylcheddol, felly bydd 2024 yn flwyddyn eithriadol o brysur. Cytunodd Andrew â'r awgrym hwn. Dywedodd ein bod wedi canolbwyntio ar y Dull Rheoli Maethynnau Uwch; ond wrth inni symud ymlaen at yr adolygiad 4 blynedd, byddai'n fwy na bodlon ymgysylltu â'r grŵp. Awgrymodd Gareth y gallai'r adolygiad ddiweddu wrth i'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch ddod i ben, os oes modd, gan y byddai hynny'n arwain at bontio mwy didrafferth.

49. Dywedodd Gareth ei fod ef, yn bersonol, o'r farn bod y diweddariadau'n hynod ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig inni beidio â cholli ein 'llais ar y cyd' o safbwynt rhagweithiol. Nid ydym eisiau cael ein gorfodi i fod yn ymatebol bob amser. Da o beth fyddai cael cyfle i gyfrannu at yr adolygiad 4 blynedd fel grŵp, yn hytrach na chael diweddariadau gan Lywodraeth Cymru yn unig.

50. Cytunodd Rhys fod angen inni fod yn rhagweithiol. Mae rhannu gwybodaeth yn bwysig ac yn hynod ddefnyddiol, ond hefyd rydym angen rhaglen weithredu ar gyfer yr Is-grŵp, ac mae angen inni allu siapio agendâu yn hytrach nag ymateb iddynt yn unig. O ran y

fforymau a’r pwyllgorau sy’n bodoli, rydym yn ceisio meddwl am y pecyn cyflawn mewn ffordd fwy cydlynol. Mae cynnwys yr holl grwpiau gwahanol wedi arwain at beth oedi o ran llunio cynllun gweithredu ar gyfer y grŵp wrth symud ymlaen.

51. Trafododd y grŵp rai o’r safleoedd yr ymwelwyd â nhw yn y gorffennol. Awgrymodd Rhys y byddai’n syniad da ymweld â safle yn ystod y Gwanwyn. Mae’n bwysig inni sicrhau bod yr aelodau’n berchen ar y grŵp hwn ac mae’n bwysig inni fod â rôl o ran siapio’r agenda dros y flwyddyn nesaf.

***PG09 Rhagfyr: Dylai’r aelodau awgrymu themâu/materion/pynciau y gall y grŵp ganolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn nesaf – WLMF.subgroup@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.***

***PG10 Rhagfyr: Dylai’r aelodau anfon awgrymiadau ynglŷn â safleoedd y gellir ymweld â nhw – WLMF.subgroup@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.***

## Eitem 6. Unrhyw Fater Arall

52. Bydd dyddiadau cyfarfodydd 2024 yn cael eu cadarnhau cyn bo hir.

53. Gofynnodd Rachel am ddiweddariad ynglŷn ag ystadegau llygredd amaethyddol.

***PG11 Rhagfyr: Dylai Bronwen Martin, CNC, ofyn i’w chydweithwyr yn CNC am ystadegau’n ymwneud â llygredd amaethyddol.***

54. Diolchodd Rhys i aelodau’r grŵp am eu cyfraniadau yn ystod y flwyddyn galendr hon a dymunodd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda iddynt.

55. Ni chodwyd unrhyw fater arall.